# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 3

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

### PENNOD 1

YSMYGU

*Troseddau*

**5 Y drosedd o ysmygu mewn mangre ddi-fwg neu gerbyd di-fwg**

(1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person yn ysmygu—
   (a) mewn mangre ddi-fwg;
   (b) mewn cerbyd di-fwg.

(2) Am ddarpariaeth ynghylch mangreoedd di-fwg, gweler adrannau 7 i 14.

(3) Am ddarpariaeth ynghylch cerbydau di-fwg, gweler adran 15.

(4) Mae'n amddiffyniad i berson sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon ddangos nad oedd y person yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, fod y fangre neu'r cerbyd o dan sylw yn fangre ddi-fwg neu'n gerbyd di-fwg.

(5) Os yw person sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon yn dibynnu ar yr amddiffyniad yn is-adran (4), ac y dygir tystiolaeth sy'n ddigonol i godi mater mewn cysylltiad â'r amddiffyniad hwnnw, rhaid i'r llys gymryd bod yr amddiffyniad wedi ei fodloni oni bai bod yr erlyniad yn profi y tu hwnt i amheuaeth resymol nad yw wedi ei fodloni.

(6) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 1 ar y raddfa safonol.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Croes Bennawd: Troseddau yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 29 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**I2** A. 5 mewn grym ar 1.3.2021 gan O.S. 2021/202, **ergl. 2**

## 6 Y drosedd o fethu ag atal ysmygu mewn mangre ddi-fwg

(1) Rhaid i berson a chanddo reolaeth dros fangre sy'n ddi-fwg neu sy'n ymwneud â rheoli mangre sy'n ddi-fwg yn rhinwedd adran 7 (gweithleoedd) neu 8 (mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd) gymryd camau rhesymol i beri i berson sy'n ysmygu yno beidio ag ysmygu.

(2) Rhaid i berson a chanddo reolaeth dros fangre, neu sy'n ymwneud â rheoli mangre, o fewn adran 9(3) (mangreoedd gofal dydd cofrestredig) sy'n ddi-fwg yn rhinwedd adran 9 gymryd camau rhesymol i beri i berson sy'n ysmygu yno beidio ag ysmygu.

(3) Rhaid i berson sydd wedi ei gofrestru i weithredu fel gwarchodwr plant o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (mccc 1) gymryd camau rhesymol i beri i berson sy'n ysmygu mewn mangre o fewn is-adran (4) beidio ag ysmygu.

(4) Mae mangre o fewn yr is-adran hon—

(a) os yw'n rhan o fangre sy'n fan preswylio arferol y person cofrestredig y cyfeirir ato yn is-adran (3), a

(b) os yw'n ddi-fwg yn rhinwedd adran 9.

(5) Caiff rheoliadau ddarparu i ddyletswydd sy'n cyfateb i'r un a grybwyllir yn is-adran (1) mewn perthynas—

(a) â mangreoedd sy'n ddi-fwg yn rhinwedd adran 10, 11 neu 12,

(b) â mangreoedd a drinnir fel pe baent yn ddi-fwg yn rhinwedd adran 13, neu

(c) â cherbydau a drinnir fel pe baent yn ddi-fwg yn rhinwedd adran 15,

gael ei gosod ar berson, neu ddisgrifiad o berson, a bennir yn y rheoliadau.

(6) Mae person sy'n methu â chydymffurfio â dyletswydd yn is-adran (1), (2) neu (3), neu unrhyw ddyletswydd gyfatebol mewn rheoliadau o dan is-adran (5), yn cyflawni trosedd.

(7) Mae'n amddiffyniad i berson ("A") sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon ddangos nad oedd A yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, fod y person o dan sylw yn ysmygu.

(8) Os yw person sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon yn dibynnu ar yr amddiffyniad yn is-adran (7), ac y dygir tystiolaeth sy'n ddigonol i godi mater mewn cysylltiad â'r amddiffyniad hwnnw, rhaid i'r llys gymryd bod yr amddiffyniad wedi ei fodloni oni bai bod yr erlyniad yn profi y tu hwnt i amheuaeth resymol nad yw wedi ei fodloni.

(9) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**I4** A. 6 mewn grym ar 29.9.2020 at ddibenion penodedig gan O.S. 2020/1048, **ergl. 2(1)(a)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Croes Bennawd: Troseddau yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 29 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**I5** A. 6 mewn grym ar 1.3.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2021/202, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Croes Bennawd: Troseddau yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 29 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2